DRAFT

**ARGYMHELLION Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 22 MEDI 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr David Meirion Jones (yn y Gadair yn absnoldeb y Cadeirydd)

Marc Lloyd Griffiths

Peter Jones

Troy Maclean

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Mark Thomas (ar Zoom)

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron

**1. Ymddihheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Morwenna Pugh, Gareth Davies, Dewi Prysor Williams a Rory Francis.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod aelod o'r cyhoedd wedi siarad gydag ef am werthiant yr hen doiledau ym Manod, ac a oedd Cyngor Gwynedd yn bwriadu buddsoddi'r arian yn y gymuned.

Cytunwyd symud eitemau 9, 12 a 13 i fyny'r agenda.

**9. Cais am Ddeunyddiau Garddio**

Ystyriwyd cais gan y Garddwr i brynu eitemau sydd eu hangen i gynorthwyo gyda chodi'r polydwnnel. Roedd y cais yn cynnwys deunyddiau ac offer angenrheidiol i gwblhau'r gwaith adeiladu.
Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y Cyngor yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**12. Y Berllan**

Trafodwyd prynu kg o hadau blodau gwyllt a llogi peiriant ysgraffinio ar gyfer y Berllan.
Cynigiodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y Cyngor yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**13. Cynllun Cadw Cymru'n Daclus**

Trafodwyd gwneud cais am Becyn Perllan dan gynllun Cadw Cymru'n Daclus. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**4. Adroddiad Archwilio Misol Caeau Chwarae**

Adroddwyd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais dan gynllun Gwynedd Ni ac wedi cael dyfarniad o £8,000 ar gyfer si-sô newydd i Gae Bryn Coed. Cytunwyd mynd at ii archebu'r offer.
Soniodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis nad oedd offer cae chwarae Tanygrisiau wedi ei ddiweddaru ers talwm iawn, a dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y sefyllfa yr un fath yng Nghae Baltic.
Derbyniwyd yr adroddiad.

**5. Llwybrau Cerdded**

Cyflwynwyd adroddiad misol y Cerddwr Llwybrau. Cytunwyd anfon rhestr i Gyngor Gwynedd yn nodi'r gwaith angenrheidiol a hefyd i Ifan ac Idris yn nodi lle'r oedd Llwybrau wedi gordyfu.
Derbyniwyd yr adroddiad.

**6. Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Cyflwynwyd adroddiad o waith y Swyddog Cynnal a Chadw am y mis blaenorol. Dywedwyd bod angen adeiladu llwyfan i'r IBC wrth y Cwt Canŵs a chytunwyd ychwanegu hyn at y rhestr.
Derbyniwyd yr adroddiad.

**7. Llinellau Pêl-rwyd ar y MUGA**

Cyflwynwyd dyfynbris am osod llinellau marcio pêl-rwyd ar y MUGA. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn derbyn pris Pentagon.

**8. Parc Sglefrio**

Cyflwynwyd Ebost a dderbyniwyd gan Crazy Road Walls ynglŷn â'r Parc Sglefrio, a chytunwyd cysyylltu gyda nhw i drafod y mater ymhellach.

**10. Arwydd Dim Cŵn – Cae Baltic**

Adroddwyd bod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ffonio i ofyn a hoffai'r Cyngor Tref gael arwydd ar y tir yn arwain at Gae Chwarae Baltic yn rhybuddio nad oes cŵn i fynd ar y tir. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor yn derbyn y cynnig a chytunodd pawb.

**11. Adroddiad Archwilio RoSPA – Perllan Pant-yr-Ynn**

Cyflwynwyd adroddiad archwilio RoSPA ar y Berllan a thrafodwyd y cynnwys. Cytunwyd y dylid hysbysu Cyngor Gwynedd o'r sylwadau ynglŷn â'r afon a oedd y tu allan i ffiniau'r Berllan, ac ychwanegu elfennau newydd i ffurflen archwilio'r Swyddog Archwilio Caeau. Cytunwyd hefyd archebu arwydd A3 yn hysbysu'r cyhoedd if od yn ofalus yn yr ardal.

**12. Adroddiad Gwaith Mwynderau'r Clercod**

Cyflwynwyd adroddiad yn nodi gwaith Mwynderau a gwblhawyd gany  Clercod ers y cyfarfod diwethaf. Derbyniwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i b en am 7.54pm.

DRAFT